# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## CBAC/City & Guilds Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2



**Yn gryno**

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol medrus, sy'n uchel ei barch fel proffesiwn a gyrfa o ddewis, ac sy'n cael ei gydnabod am y rôl hanfodol y mae'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei chwarae wrth gefnogi unigolion drwy gydol eu hoes.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...hoffech weithio mewn iechyd neu ofal cymdeithasol

...hoffech gael lleoliad gwaith rheolaidd

...hoffech gael cyfuniad o ddysgu theori ac ymarferol

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y

pwnc, hunangymhelliant ac angerdd am y diwydiant iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus ac mae disgwyl i chi barhau â'ch astudiaethau wrth ymgymryd â lleoliad gwaith.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Cyfle i symud ymlaen i egwyddorion a gwerthoedd lefel 3 neu ymarfer lefel 2 City & Guilds (oedolion).

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd yn rhaid i bob dysgwr gynnal gwiriad boddhaol ar y DBS ar ddechrau'r cwrs er mwyn caniatáu iddynt gymryd rhan yn yr uned lleoliadau gwaith gorfodol.